

# Amserlen

## Penderfyniadau

### Is-bwyllgor Trwyddedu

---

#### I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD

#### Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 20 Hydref 2020

Gwnaeth y Is-bwyllgor Trwyddedu y penderfyniadau canlynol ar 20 Hydref 2020, a ddaeth i rym ar unwaith.

Cynghorwyr: J Hughes (Cadeirydd), T Suller, William Routley

---

#### LIC PAN 04/20

**Cais o dan adran 17 o Ddeddf Trwyddedu 2003 gan Wm Morrison Supermarkets PLC am drwydded mangre yng ngorsaf betrol Morrison, Heol Asalea, Tŷ-du, NP10 9SA (“cais y fangre”).**

Bu'r is-bwyllgor yn ystyried cais y fangre, a'r sylwadau a wnaed yn y gwrandawriad gan Gosschalks Solicitors yn gweithredu ar ran Wm Morrison Supermarkets PLC a hefyd gan drigolion lleol.

Bu'r is-bwyllgor hefyd yn ystyried yr amcanion trwyddedu. Yn wyneb agosrwydd gorsaf betrol Morrison at drigolion lleol, roedd yr is-bwyllgor wedi rhoi sylw arbennig i'r amcanion trwyddedu o atal troseddu ac anhrefn ac amddiffyn plant rhag niwed.

Penderfynodd yr is-bwyllgor ganiatáu cais y fangre gyda'r amodau a ganlyn:

- Gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y fangre yn unig: dydd Llun i ddydd Sul 6am i 10.30pm;
- a
- Darparu lluniaeth hwyr y nos: dydd Llun i ddydd Sul tan 10.30pm.

#### **Penderfyniad pellach:**

Ar 3 Tachwedd 2020, cyflwynodd yr ymgeisydd ar gyfer gorsaf betrol Morrison, Heol Azalea, Tŷ-du, Casnewydd, NP10 9SA, apêl i Lys Ynadon Casnewydd i herio penderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu, gan nodi:

Mater y gŵyn: Mae'r achwynydd wedi'i dramgwyddo gan benderfyniad y Cyngor Ymateb ar 20 Hydref 2020 i wrthod rhoi trwydded mangre i'r fangre i ganiatáu gwerthu alcohol o 6am tan hanner nos a lluniaeth hwyr y nos o 11pm tan hanner nos bob dydd, gan ganiatáu trwydded mangre yn lle hynny i ganiatáu gwerthu alcohol rhwng 6am a 10.30pm bob dydd. Mae'r achwynydd wedi'i dramgwyddo ynghylch y penderfyniad am y rhesymau a ganlyn:

1. Roedd y penderfyniad yn anghywir

2. Roedd y penderfyniad i wrthod caniatáu'r oriau a geisiwyd ar gyfer gwerthu alcohol a lluniaeth hwyr y nos yn groes i bwysau'r dystiolaeth
3. Methodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu â rhoi digon o bwys i'r ffaith nad oedd unrhyw sylwadau gan unrhyw un o'r awdurdodau cyfrifol
4. Methodd yr awdurdod trwyddedu â dilyn ei bolisi ei hun. Mae'r apelydd yn cadw'r hawl i apelio ar seiliau eraill ac, yn gyffredinol, mae wedi'i dramgwyddo gan benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu.

Mae'r achwynydd felly yn apelio i'r Llys Ynadon uchod yn unol ag Atodlen 5 i Ddeddf Trwyddedu 2003.

Yng ngoleuni'r apêl a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd, gofynnodd gorchymyn cydsynio rhwng yr ymgeisydd (Morrisons) a Chyngor Dinas Casnewydd a fyddai'r llys yn ystyried dychwelyd y cais yn ôl i'r awdurdod trwyddedu i'w ailystyried, heb orchymyn ynghylch costau.

Ar 19 Mawrth 2021, penderfynodd Llys Ynadon Casnewydd y dylid dychwelyd y cais i'r awdurdod lleol.

Bu'r Pwyllgor Trwyddedu yn cyfarfod ar fore 16 Ebrill 2021 i ailgynnull yr adran penderfyniadau yn y gwrandawriad trwyddedu ar ôl i'r ynadon gyfarwyddo'r mater yn ôl i'r awdurdod trwyddedu.

Penderfynodd y pwyllgor adolygu'r oriau trwyddedu i nodi:

- Gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y fangre yn unig: dydd Llun i ddydd Sul 6am tan 12 hanner nos; a

- Darparu lluniaeth hwyr y nos: dydd Llun i ddydd Sul o 11pm tan 12 hanner nos er bod yr Is-bwyllgor Trwyddedu, wrth ganiatáu'r drwydded tan hanner nos, yn nodi'r sylwadau a wnaed gan bobl eraill (preswylwyr lleol), ac er nad yw'r pwyllgor yn dymuno ychwanegu unrhyw amodau pellach i'r drwydded mangre, maent yn argymhell y dylai deiliad y drwydded mangre ystyried ymgysylltu â'r gymuned leol ac yn ystyried Adran 11.7 o Bolisi Trwyddedu Cyngor Dinas Casnewydd, sy'n rhagnodi:

*Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod bod lefel y rheolaeth sydd gan ddeiliaid trwydded dros gwsmeriaid y tu hwnt i gyffiniau'r fangre trwyddedig yn lleihau ac mae unigolion sy'n cyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol yn atebol am eu gweithredoedd eu hunain. Fodd bynnag, anogir ymgeiswyr i ystyried y camau y gallant eu cymryd fel deiliad trwydded cyfrifol i liniaru effaith andwyol bosibl cwsmeriaid. Unwaith eto, dylid defnyddio'r atodlen weithredu i ddangos dealltwriaeth o'r risgiau posibl a'r mesurau cadarnhaol y gellir eu gweithredu i reoli materion o'r fath. Anogir ymgeiswyr hefyd i ymgysylltu â "phobl eraill", er enghraifft trigolion lleol, busnesau lleol a grwpiau cymunedol lleol, yn gynnar cyn cyflwyno cais. **Os rhoddir trwydded, argymhellir bod y fangre'n parhau i ymgysylltu â Thimau Amgylchedd Cyngor Dinas Casnewydd, er enghraifft PINT (Tim Balchder yng Nghasnewydd), a'r Gymuned leol ac i sicrhau lefel dda o gyfathrebu rhwng y fangre a'r gymuned leol.***

Ystyriodd y pwyllgor ymhellach fod yr heddlu wedi tynnu ei wrthwynebiad yn ôl ar ôl cyfryngu'r cais gyda Morrisons ac nid oedd unrhyw awdurdod cyfrifol arall wedi cyflwyno sylw. Rhoddodd y pwyllgor ystyriaeth bellach i Adran

10.15 o ganllawiau'r Swyddfa Gartref ar Ddeddf Trwyddedu 2003, sy'n nodi: 10.15 Fel arfer, dylai siopau, storfeydd ac archfarchnadoedd fod yn rhydd i werthu alcohol i'w yfed oddi ar y fangre ar unrhyw adegau pan fo'r siop ar agor at ddibenion siopa oni bai fod rhesymau da, yn seiliedig ar yr amcanion trwyddedu, dros gyfyngu ar yr oriau hynny.

Mae'r pwyllgor yn cydnabod y dylid trin pob cais yn ôl ei deilyngdod, ond mae hefyd yn nodi nad oes unrhyw gwynion wedi'u gwneud i'r awdurdodau cyfrifol ynghylch archfarchnad Morrisons sy'n tanseilio'r amcanion trwyddedu (sydd ar hyn o bryd yn dal trwydded mangre ganol nos ar gyfer gwerthiannau oddi ar y fangre) a thrigolion yn yr un lleoliad.

Mae'r pwyllgor hefyd yn dymuno nodi, os bydd UNRHYW drwydded mangre yn tanseilio'r amcanion trwyddedu, y gellir adolygu'r fangre. Mae'r pwyllgor yn cynghori, os bydd materion o'r fath yn codi yn Morrisons, yna dylai trigolion gysylltu â Heddlu Gwent a thimau trwyddedu Cyngor Dinas Casnewydd. Fel gyda phob deiliad trwydded, mae'r Pwyllgor Trwyddedu yn disgwyl i bob mangre hyrwyddo'r amcanion trwyddedu yn llawn bob amser.

### **Ymgynghoriad**

**Gweithredir gan:** 20 Hydref 2020

**Amserlen Weithredu:** Ar unwaith

---